ECAD6009/C & 7003/C FAQs with answers

Gwybodaeth /information	
Gwybodaeth **Rhan 1 (y fideo)**:- RHAID iddo fod yn gysylltiedig â'r gymuned ond efallai na fydd o reidrwydd wedi'i ysgrifennu/nodi'n brosiect/targed yn y CDY – efallai mai rhywbeth mae'r ysgol yn ei wneud ydyw! Fodd bynnag, os mai prosiect sydd wedi'i ysgrifennu yn y CDY ydyw, mae hynny hefyd yn iawn. Defnyddiwch fanyleb yr aseiniad (rhan 1) am gymorth pan fyddwch yn canfod sut mae'r dysgwr, yr ysgol a'r gymuned leol yn cydweithio i gyflawni un o bedwar diben y cwricwlwm newydd. Bydd y manylion yn y fanyleb yn helpu i sicrhau eich bod yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol am y prosiect a fydd yn eich cefnogi wrth greu eich fideo. Bydd disgwyl i chi ymwneud â llenyddiaeth gysylltiedig am y prosiect yn eich fideo.	**Information** **Part 1 (the video)**:- MUST be linked to the community but may not necessarily be written/identified as a project/target in the SDP - it might just be something the school does! However, if it is a project written in the SDP that is also fine. Use the assignment specification (part 1) for support when you are finding out about how the learner, the school and the local community work together to deliver one of the four purposes of the new curriculum. The details in the specification will help to ensure you are gathering useful information about the project which will support you when making your video. You will be expected to engage with related literature about the project in your video.
Gwybodaeth **Rhan 2 (yr adroddiad):-** RHAID iddo fod yn **darged o'r CDY** ac NID OES angen iddo fod yn gysylltiedig â'r gymuned. Mae'n iawn os yw'r targed yr ydych *chi* wedi'i ddewis yn digwydd cysylltu â'r gymuned. Fodd bynnag, does dim rhaid iddo, h.y. gall fod yn **unrhyw <u>un</u> o'r targedau o'r CDY sy'n digwydd bod o ddiddordeb i chi.** Bydd disgwyl i chi ymwneud â llenyddiaeth berthnasol am eich dewis bwnc wrth ysgrifennu eich adroddiad ynghyd â llenyddiaeth am gynllun datblygu'r ysgol. Bydd y manylion yn y fanyleb yn helpu i sicrhau eich bod yn bodloni POB agwedd ar ofynion yr aseiniad yn yr adroddiad	**Information** **Part 2 (the report):-** MUST be a **target from the SDP** and does NOT NEED to link to community. It is fine if the target *you* have chosen happens to link to the community however it does not have to, it can be **any <u>one</u> of the targets from the SDP that happens to interest you.** You will be expected to engage in relevant literature about your chosen topic when writing your report along with literature about school development planning. The details in the specification will help to ensure you are meeting ALL aspects of the assignment requirements in the report
Asesiad/Assessment **Elfen 1/Component 1** **Fideo/Video**	
C: Beth os nad yw fy ysgol yn ymgysylltu â'r gymuned o gwbl? *A: Meddyliwch eto am y sesiwn gyflwyno gyntaf a'r hyn a olygwn wrth gymuned, efallai y daw'n fwy amlwg er mwyn nodi sut mae'r ysgol yn ymwneud ag eraill.* Os ydych chi'n dal yn ansicr, mae'n bosibl y bydd y canlynol yn ddefnyddiol i chi ailgysyniadu'r syniad o gymuned.	***Q: What if my school doesn't engage in the community at all?*** *A: Reflect back on the first introduction session and what we mean by community, it may become more evident to identify how the school does engage with others.* If you are still unsure, you *may* find the following helpful to reconceptualise the idea of community.

Cymuned fel clystyrau o ysgolion – sut mae eich ysgol lleoliad yn datblygu ac yn gweithredu ei gweithgareddau pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd? Sut mae dysgwyr yn rhan o hyn? Sut mae'r gymuned o athrawon (a rhieni o bosibl) yn cydweithio ar bontio?	**Community as clusters of schools** - how does your placement school develop and implement its transition activities between primary and secondary schools? How are learners involved? How do the community of teachers (and possibly parents) work together on transition?
Cymuned o rieni – sut mae'r ysgol wedi parhau i ymgysylltu/cynnwys y gymuned o rieni? Sut mae hyn yn effeithio ar y dysgwr?	**Community of parents** - how has the school continued to engage/involve the parental community? How does this impact the learner?
Ymgysylltu ag elusennau – sut mae'r ysgolion wedi codi arian neu ddarparu offer ar gyfer elusennau lleol? Pam mae'r ysgol yn meddwl ei bod hi'n bwysig i ddysgwyr gymryd rhan yn hyn?	**Engagement with charity** - how have the schools raised money or equipment for local charities? Why does the school think it's important for learners to be engaged in this?
Siaradwyr allanol, busnesau, sefydliadau – sut mae'r ysgol yn ymgysylltu ag asiantaethau lleol? Pa effaith y mae hyn yn ei gael ar y dysgwyr?	**External speakers, businesses, organisations** - how does the school engage with local agencies? What impact does this have on the learners?
Y gymuned fel safle dysgu – a yw disgyblion yn ymgysylltu â'u hardal leol drwy ymweliadau oddi ar y safle? A yw rhieni'n defnyddio'r ysgol fel safle ar gyfer eu hanghenion dysgu/datblygiad neu gymorth eu hunain? Pa effaith y mae hyn yn ei gael ar y dysgwr?	**Community as a site of learning** - are pupils engaging with their local area through off site visits? Are parents using the school as a site of their own learning/development needs or support? What impact does this have on the learner?

C: Beth os gwnaeth fy ysgol brosiect gyda'r gymuned y llynedd ac nad yw'n gwneud unrhyw beth nawr? *A: Dysgwch ragor am yr hyn y mae'r ysgol wedi'i wneud a gallwch ddefnyddio hyn yn enghraifft yn eich fideo.*	***Q: What if my school did a project with the community last year and are not doing anything now?*** *A: Find out more about what the school has done and you can use this as an example in your video*
C: Alla i ddefnyddio ysgol arweiniol y rhwydwaith yn enghraifft o ysgol sy'n gweithio gyda chymuned OS nad ydw i wedi gweld beth mae fy ysgol yn/wedi ei wneud? *A: Gallwch, ond i ddechrau sicrhewch eich bod wedi archwilio pob llwybr yn eich ysgol lleoliad.*	***Q: Can I use the network lead school as an example of a school working with a community IF I have not seen what my school is doing/done?*** *A: Yes, but in the first instance ensure you have explored all avenues in your placement school.*

C: Beth os nad yw'r prosiect cymunedol yn cysylltu â'r pedwar diben? *A: Nod y fideo yw archwilio'n feirniadol sut mae'r ysgol yn gweithio gyda'r dysgwr a'r gymuned i ddatblygu UN o'r pedwar diben. Os nad yw'r ysgol wedi nodi'r cysylltiad, allwch chi feddwl am sut y gellid ystyried ei bod yn datblygu un o'r pedwar diben? Asesir y fideo ar gysylltu ymgysylltiad â'r gymuned ag un o'r pedwar diben. Ystyriwch graffu'n fanylach na theitl y pedwar diben yn unig, edrychwch ar y meini prawf penodol oddi mewn iddynt, defnyddiwch y ddolen hon i'ch atgoffa o fanylion y pedwar diben*	***Q: What if the community project does not link to the four purposes?*** *A: The aim of the video is to critically examine how the school works with the learner and the community to develop ONE of the four purposes, if the school has not identified the link can you think about how it could be seen to develop one of the four purposes. The video is assessed on linking the community engagement with one of the four purposes. Consider looking deeper than just the title of the four purposes, look at the specific criteria within, use this link to remind you of the details of the four purposes*
C Nid oes gen i ddigon o wybodaeth am brosiect cymunedol yr ysgol i fynd i'r afael â'r awgrymiadau ym manyleb yr aseiniad. ***A*** *Gwyddom y gall y wybodaeth sydd ar gael am brosiectau penodol amrywio'n fawr. Lle nad oes gennych wybodaeth benodol, awgrymwn eich bod yn defnyddio'r wybodaeth a gawsoch yn sgil eich darllen ehangach i lenwi'r bylchau. Er enghraifft, os nad ydych yn gwybod y rhesymau ar gyfer prosiect, darllenwch y llenyddiaeth ynghylch pam fod ysgolion yn ymgysylltu â'r cymunedau a nodwch y rhai hynny sydd fwyaf tebygol o fod yn berthnasol yn y cyd-destun hwn yn eich barn chi. Enghraifft arall, os nad ydych chi'n gwybod sut y bydd y prosiect yn cael (neu sut y cafodd) ei werthuso. Beth mae'r llenyddiaeth yn ei awgrymu fel ffordd effeithiol o werthuso effaith?*	***Q I don't have enough information about the school community project to address the suggestions in the assignment specification****.* ***A*** *We know that the information available about specific projects can vary greatly. Where you don't have specific information, we suggest that you use the knowledge gained from your wider reading to fill the gaps. For example, if you don't know the reasons for a project, read around the literature about why schools engage with the communities and identify those that you feel are most likely to apply in this context. Another example, if you don't know how the project will be (or has been) evaluated? What does the literature suggest would be an effective way of evaluating impact?*
C: A oes angen i'r fideo ymwneud â'r CDY? *A: Nac oes. Dylai'r fideo ymwneud â gweithgarwch y gellid ei nodi fel rhywbeth sy'n cysylltu ag un o'r pedwar diben. Gallai hyn ddod o'r CDY, ond does dim rhaid iddo.*	***Q: Does the video need to relate to the SDP?*** *A: No. The video should relate to activity that could be identified as linking to one of the four purposes. This could come from the SDP, but it doesn't have to.*
C: Beth yw amser byrraf/hiraf y fideo? *A: Fel gyda phob aseiniad, mae gennych + neu - 10% (9 munud -11 munud)*	***Q: What is the minimum / maximum length for the video?*** *A: As with any assignment, you have + or - 10% (9 minutes – 11 minutes)*

C: Allwn ni ddefnyddio meddalwedd arall heblaw am PowerPoint? *A: Mae croeso i chi ddefnyddio meddalwedd arall os hoffech ac os ydych yn gyfarwydd ag ef. Gallai hyn gynnwys defnyddio Keynote os ydych chi'n ddefnyddiwr Mac. Er hynny, nid oes gofyniad i ddefnyddio unrhyw beth heblaw am PowerPoint.*	***Q: Can we use another software aside from PowerPoint?*** *A: You are welcome to use another piece of software if you want to and are familiar with it. This could include using Keynote if you are a Mac user. However, there is no requirement to use anything other than PowerPoint.*

C: A oes rhaid cynnwys y sgript yn y nodiadau neu ei gyflwyno o gwbl? *A: NAC OES, does dim rhaid cynnwys y sgript.*	***Q: Do we have to include the script in the notes, or submit it at all?*** *A: NO, you don't need to include the script.*
C: Sut ydw i'n cyfeirnodi'r delweddau yn fy nghyflwyniad Powerpoint? *A: Gallwch naill ai ychwanegu cydnabyddiaeth ar y sleidiau unigol, neu ychwanegu adran ar gyfer cydnabod delweddau at ddogfennau Word y templed cyflwyno gyda'ch cyfeirnodau academaidd.*	***Q: How do I reference the images in my Powerpoint?*** *A: You can either add a credit on the individual slides, or add a section for image credits onto the submission template word documents alongside your academic references.*
C: Sut ydw i'n creu'r fideo ar Chromebook? *A: Dim ond ar fersiwn bwrdd gwaith Powerpoint y mae'r opsiwn i recordio sain ar sleid ar gael ac felly ni fydd yn gweithio ar Chromebooks. Mae gennych ddau opsiwn:* 1. *Defnyddio Teams neu debyg i recordio eich hun yn cyflwyno'ch cyflwyniad ar un cynnig* 2. *Recordio'r sain ar wahân ac wedyn ei ychwanegu at y sleidiau drwy ddefnyddio'r opsiwn 'insert > audio'. Yna gofyn i rywun sydd â fersiwn bwrdd gwaith o PowerPoint i greu'r fideo i chi.*	***A: How do I create the video on a Chromebook?*** *A: The option to record audio onto a slide is only available on the Desktop version of Powerpoint and therefore won't work on Chromebooks. You have two options:* 1. *Use Teams or similar to record yourself delivering your presentation in one take* 2. *Record the audio separately and then add it to the slides using the insert > audio option. Then ask someone who has a desktop version of PowerPoint to create the video for you.*

C: Oes modd defnyddio lluniau o'r lleoliad ac a yw'r un ffurflen ganiatâd yn berthnasol? *A: Gallwch ddefnyddio lluniau os oes rhai gyda chi a'ch bod chi'n credu eu bod nhw'n ychwanegu gwerth at y fideo. Cofiwch y dylid sicrhau bod pob plentyn yn ddienw, a chuddio neu gymylu unrhyw beth sy'n datgelu enw'r ysgol.* *Er hynny, does dim rhaid defnyddio lluniau, ac os nad oes gennych rai does dim angen poeni am ddychwelyd i'r ysgol i dynnu lluniau.*	***Q: Can we use pictures from placement and does the same consent form apply?*** *A: You can use photographs if you have them and you feel they add value to the video. Remember that all children should be anonymised, and anything that identifies the school should be blurred or covered.* *However, you don't have to, and if you don't have any you shouldn't worry about having to go back and collect some.*
C: A ddylwn i ddweud dyddiad y cyfeirnod yn y naratif? A: Does dim rhaid i chi, cyn belled â'i fod yn ymddangos ar y sgrin a'i fod yn glir i'r darllenydd at ba ffynhonnell rydych yn cyfeirio.	***Q: Do I say the date of the reference in my narration?*** *A: You don't need to, as long as it appears on screen and is clear to the viewer which source you are referring to.*

Asesiad/Assessment **Elfen 2/Component 2** **Adroddiad/ Report**	
C: Beth ddylwn ei ddarganfod yn y cyfarfod am y CDY? *A: Dylech ddarganfod pa broses y mae'r ysgol yn mynd drwyddi i hunanwerthuso, nodi targedau, datblygu strategaethau a gwerthuso effaith. Defnyddiwch eich llyfryn 'beth i chwilio amdano ar leoliad rhan 2' i gefnogi eich gwaith casglu tystiolaeth*	***Q: What should I find out in the meeting about the SDP?*** *A: Find out what process the school goes through to self-evaluate, identify targets, develop strategies and evaluate impact. Use your 'what to look for on placement part 2' booklet to support your evidence gathering*

C: Does gen i ddim copi o Gynllun Datblygu'r Ysgol (CDY). Beth allaf ei wneud*?* *A: Dechreuwch trwy gysylltu â'ch ysgol PAP 1 a gweld a allan nhw rannu copi gyda chi. Os nad ydyn nhw'n fodlon rhannu'r ddogfen gyfan, gofynnwch am grynodeb neu restr o flaenoriaethau presennol yr ysgol.* *Os ydych chi'n teimlo nad oes gennych y wybodaeth o hyd, gallech* ***ddefnyddio gwybodaeth o'ch ysgol arweiniol,*** *neu seilio'r adroddiad ar eich gwybodaeth eich hun am flaenoriaethau presennol yr ysgol, ac ysgrifennu am sut y gallent fod wedi cael eu datblygu a sut y gellid eu gwerthuso gan ddefnyddio dogfen LlC.* *Os ydych chi'n dal yn ansicr, cysylltwch â Jessica Roberts neu Lilian Martin am arweiniad.*	***Q: I don't have access to my school's School Development Plan (SDP). What can I do?*** *A: Start by contacting your PTE 1 school and see if they can provide a copy. If they're unwilling to share the whole document, ask if they could share a summary, or a list of current school priorities.* *If you still don't feel you have the information could you either* ***use information from your lead school,*** *or simply base the report on your own knowledge of the current school priorities, and write about how they could have been developed and may be evaluated using the WG document.* *If you're still unsure, contact Jessica Roberts or Lilian Martin for guidance.*
C: Beth os na fydd yr ysgol yn rhoi copi o'r CDY i mi? *A: Yn y cyfarfod, cymerwch nodiadau o'r hyn y sonnir amdano, efallai y gallwch gasglu digon o wybodaeth o'r cyfarfod hwn. Efallai y cewch agweddau ar y CDY, gall hyn fod o gymorth i ddeall y strwythur a'r broses. Fel arall, bydd ysgol arweiniol eich rhwydwaith yn barod i rannu eu CDY, trafodwch y llwybr gorau i chi gyda'ch uwch fentor.*	***Q: What if the school will not give me a copy of the SDP****?* *A: In the meeting take notes of what is spoken about, you may be able to gather enough information from this meeting. You may be given aspects of the SDP, this can helpful to understand the structure and the process. Alternatively, your network lead school will be willing to share their SDP, discuss with your senior mentor the best route for you.*

C: Beth os nad yw'r CDY yn rhoi manylion am randdeiliaid, gwerthuso neu ryw elfen y mae gofyn i mi roi sylwadau arni? *Os nad ydych yn gwybod beth mae'r ysgol wedi'i wneud i ymgysylltu â rhanddeiliad, neu sut y maent yn bwriadu gwerthuso, defnyddiwch yr wybodaeth rydych wedi'i chaffael o'r modwl i awgrymu pa gamau allai fod yn addas iddynt eu cymryd ar gyfer y maes penodol hwnnw ar gyfer y CDY.*	***Q: What if the SDP doesn't give details about stakeholders, evaluation or some element that I've been asked to comment on?*** *If you don't know what the school has done to engage with stakeholder, or how they are planning to evaluate, use the knowledge you have gained from the module to suggest what may be appropriate steps they could take for that particular area for the SDP.*
C: Mae cynllun datblygu ysgol fy PAP yn amlinellu tair blaenoriaeth, ac o dan bob blaenoriaeth mae saith i ddeg 'pwynt gweithredu'. A fyddai angen i mi ganolbwyntio ar un cam gweithredu a sut mae'n gweithio tuag at y flaenoriaeth a ddewiswyd neu bob un/rhai o'r pwyntiau ar gyfer yr aseiniad? **A:** Mae croeso i chi ddewis lefel y manylder sy'n gweithio ar gyfer aseiniad 2,500 o eiriau – gallai hynny fod ar lefel pwynt gweithredu. Mae lefel y manylder yn amrywio'n sylweddol rhwng ysgolion, felly nid yw'n rhywbeth y gallwn roi ateb pendant yn ei gylch.	***Q My PTE school development plan outlines three priorities and under each priority, there is seven to ten 'actions points'. Would I need to focus on one action and how it works towards the chosen priority or all/some of the points for the assignment?*** ***A*** *You're welcome to pick the level of detail that works for a 2,500 word assignment - that may well be at the level of action point. The level of detail varies significantly between schools, so it's not something we can give a definitive answer.*
C: Mae cynllun datblygu fy ysgol yn nodi gwella leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu i leihau'r bwlch cyrhaeddiad yn sgil tlodi. Fodd bynnag, mae'r targed hwn wedi'i rannu'n 3 maes targed llai sef darllen, ysgrifennu a sillafu. Gan mai dim ond 2,500 o eiriau yw'r aseiniad, roeddwn i am wirio a fyddai'n iawn canolbwyntio ar ddim ond un rhan o'r targed cyffredinol e.e. darllen, er mwyn bod yr ymchwil yn fwy penodol. Neu a fyddai'n well rhoi trosolwg eang o bob un o'r tri maes o fewn yr un targed? **A:** Does dim rheol bendant yma – mae un elfen o darged yn hollol iawn. **Mae angen i chi ddod o hyd i lefel o fanylder a fydd yn caniatáu i chi ddarparu trafodaeth feirniadol o fewn y cyfrif geiriau a roddwyd.** Weithiau, bydd hynny'n golygu edrych ar ddim ond un elfen o darged mwy o faint. Os byddwch chi'n gwneud hynny, mae'n werth defnyddio rhai geiriau i roi'r cyd-destun i'r darllenydd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn egluro sut mae'r un elfen hon yn berthnasol i'r CDY ehangach. Wedyn gallwch fwrw ymlaen gyda'r ffocws	***Q My school's development plan identifies improving LLC to reduce the poverty gap in attainment. However, this target is divided into 3 smaller target areas of reading, writing and spelling. As the assignment is only 2,500 words, I wanted to check it would be okay to focus on only one part of the overall target e.g. reading so that the research will be more specific. Or would it be better to give a broad overview of all three areas within the one target?*** ***A*** *There's no hard and fast rule here - one element of a target is absolutely fine.* ***You need to find a level of detail that will allow you to provide a critical discussion within the word count given****.* *Sometimes that will mean looking at just one element of a larger target. If you are doing that, it's worth spending a few words setting the context for the reader. Make sure you explain how this one element fits into the larger SDP? Then crack on with that specific focus.*

penodol hwnnw.	

C: Sut ydw i'n penderfynu pa darged i ganolbwyntio arno o'r CDY? *A: Eich dewis chi fydd hwn, bydd disgwyl i chi ymgysylltu â llenyddiaeth yn eich adroddiad i gefnogi eich ymgysylltiad â'r pwnc a ddewiswyd gennych.*	***Q: How do I decide which target to focus on from the SDP?*** *A: This will be your preference, you will be expected to engage with literature in your report to support your engagement with the topic you have chosen.*
C: Os mai dim ond at drosolwg cyffredinol o'r CDY a'm dewis faes y mae'r adolygiad llenyddiaeth yn cyfeirio, dydw i ddim yn siŵr ar y pwynt hwn fod angen i mi fod yn cyfeirio at CDY penodol yr ysgol. Y ffordd rwy'n ei ddehongli yw mai trosolwg o'r meysydd hyn yw'r adolygiad llenyddiaeth h.y. hunanwerthuso, dadansoddi data, ymgysylltiad rhanddeiliaid, cynllunio strategol, mesur effaith... ac mai dim ond yn adran 'Datblygu Pwynt Gweithredu' fy adroddiad ac ymlaen y dylwn ddechrau crybwyll CDY go iawn yr ysgol (a'i brosesau/taith). **A:** Rydych chi yn llygad eich lle! Gallwch ddefnyddio llenyddiaeth berthnasol LlC, Estyn, llyfrau a llenyddiaeth arall i gefnogi eich trafodaeth ar bwysigrwydd, perthnasedd a phwrpas cynllun datblygu'r ysgol i helpu i ffocysu hanner eich adolygiad llenyddiaeth, ond yn yr adran 'Datblygu Pwynt Gweithredu' y dylid cynnwys y drafodaeth ar CDY/SIP go iawn yr ysgol.	***Q If the literature review only refers to a general overview of both what SDPs are and of my chosen area. I'm not sure that at this point I need to be referring to the school's particular SDP. The way I'm reading it is that the literature review is an overview of these areas ie self evaluation, data analysis, stakeholder involvement, strategic planning, measuring impact..and that I only start mentioning the school's actual SDP (and its processes/journey) in the 'Developing an Action Point' section of my report and onwards.*** ***A*** *The way you're reading it is spot on!* *You can use the relevant WG, Estyn, books and other literature to support your discussion on the importance, relevance and purpose of school development planning to help focus your one half of the literature review, but the discussion of the school's actual SDP/SIP comes in the 'Developing an Action Point' section*
C: Yn yr adran "Datblygu Pwynt Gweithredu", pan fyddwn yn trafod yr hyn y mae'r ysgol yn ei wneud, a oes angen i ni drafod pob rhan o'r broses? ***A:*** *Oes, ymgysylltwch â rhannau'r broses a amlinellwyd yn y canllawiau asesu drwy daith eich pwynt gweithredu a ddewiswyd.*	***Q In the "Developing an Action Point" section, when we are discussing what the school does, do we need to discuss all parts of the process.*** ***A*** *Yes, engage with the parts of the process as highlighted in the assessment guidance through the journey of your chosen action point*
Cwestiwn dilynol ***Beth os nad oes gan y CDY y wybodaeth sydd ei hangen arnom, er enghraifft, sut mae'n bwriadu ymgysylltu â rhanddeiliad neu fesur effaith y targed dan sylw?*** ***A:*** *Os nad oes gennych wybodaeth benodol gan yr ysgol, gallwch ddefnyddio eich gwybodaeth*	***Follow up question*** ***What if the SDP does not have the information we need, for example, how does it intend to engage with stakeholder or measure impact of the said target?*** ***A*** *If you do not have specific information from the school, you can use your own knowledge*

a'ch dealltwriaeth eich hun (a ategir gan lenyddiaeth berthnasol) i rannu gyda'r darllenydd yr hyn y gallai'r ysgol ei wneud.	*and understanding (supported by relevant literature) to share with the reader what might be done/could be done by the school.*
C: Rydw i am gael eglurhad ar a yw'r 'adfyfyrio a gwerthuso' yn seiliedig ar eich ffocws/pwynt gweithredu neu ar y CDY cyfan? ***A:*** *Bydd y rhan fwyaf ohono ar eich maes ffocws. Os oes gennych unrhyw farn ar broses gyfan y CDY, gallwch ei gynnwys os yw'n berthnasol, ond nid yw'n ofyniad, a byddwch yn ofalus o'r cyfrif geiriau.*	***Q I just want to clarify is the 'reflection and evaluation' based on your focus/action point or on the whole SDP? .*** ***A*** *The bulk of it will be on your focus area. If you have any reflections on the whole SDP process you can include them if its relevant, but it's not a requirement, be mindful of word count.*
Cwestiwn dilynol ***Pa arddull trafodaeth sydd angen ei gynnwys yn yr adran 'adfyfyrio a gwerthuso'?*** ***A:*** *Rydych chi'n adolygu'r hyn maen nhw wedi'i wneud (neu'n bwriadu ei wneud). Rydych yn adfyfyrio ac yn gwerthuso, naill ai'n seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd ganddynt neu'r cynllun fel y'i lluniwyd ganddynt, yng ngoleuni eich darllen ehangach. Sylwch, rydych hefyd yn chwilio am rai awgrymiadau ymarferol yn seiliedig ar eich gwybodaeth am ddamcaniaeth ac arfer, efallai pethau maen nhw wedi'u methu a/neu awgrymiadau ar gyfer cylchoedd CDY yn y dyfodol.*	**Follow up question** **What style of discussion needs to go in the 'reflection and evaluation' section** **A** You are reviewing what they have done (or proposing to do). You are reflecting and evaluating, either based on the evidence they have provided or the plan as they have laid it out, in light of your wider reading. Note, you are also looking for some practical suggestions based on your knowledge of theory and practice, maybe things they have missed and/or suggestions for future cycles of SDP.
Cwestiynau Cyffredinol **General Questions**	
C: Sut ydw i'n cyfeirnodi sgwrs gyda, neu e-bost gan, rywun yn fy ysgol? *A: Gweler adran 13 canllaw Cyfeirnodi Harvard - https://uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/library-and-learning-resources/infoskills/Harvard-eng_v.1.2.pdf*	***Q: How do I reference a conversation with, or email from, someone at my school?*** *A: Please see section 13 of the Harvard Referencing guide - https://uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/library-and-learning-resources/infoskills/Harvard-eng_v.1.2.pdf*
C: Sut ydw i'n cyfeirnodi'r CDY? A: Gallwch naill ai ychwanegu rhan berthnasol y CDY fel atodiad, neu gallwch ei gyfeirnodi fel 'dogfen gyfrinachol' – gweler 5.2 canllaw Cyfeirnodi Harvard - https://uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/library-and-learning-resources/infoskills/Harvard-eng_v.1.2.pdf	**Q: How do I reference the SDP?** *A: You can either add the relevant part of the SDP as an appendix, or you can reference it as a 'confidential document' - see 5.2 of the Harvard Referencing guide - https://uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/library-and-learning-resources/infoskills/Harvard-eng_v.1.2.pdf*

GWELER CYMORTH YCHWANEGOL AR GYFEIRNODI CDY AR MOODLE	***PLEASE SEE ADDITIONAL SDP REFERENCING SUPPORT ON MOODLE***
C: A oes angen i mi gynnwys cyfeirnodau yn y fideo hyd yn oed os ydw i wedi cyflwyno rhestr gyfeiriadau ar gyfer y fideo? **A:** OES. Rhaid cynnwys cyfeirnodau ar y sleidiau perthnasol drwy gydol sleidiau eich cyflwyniad, er enghraifft Jones (2018) neu Montgomery et al (2020)... Dylid rhoi cyfeirnodau llawn yn y rhestr gyfeiriadau, a gallech gynnwys y rhestr gyfeiriadau hon ar sleid derfynol.	***Q Do I need to cite references in the video even if I have submitted a reference list for the video?*** ***A*** *YES. References must be cited on the relevant slides throughout your presentation slides, for example Jones (2018) or Montgomery et al (2020)…. Full references should be given in the reference list, and you could include this reference list on a final slide.*
C: Alla i ddefnyddio adroddiad Estyn yr ysgol fel ffynhonnell? **A:** Gallwch. Os byddwch yn cyfeirio at yr adroddiad Estyn, sicrhewch ei fod yn ddienw yn yr un modd ag aseiniadau blaenorol e.e. 'Ysgol X' neu dilëwch/cuddiwch enw'r ysgol – byddwch yn ofalus os byddwch yn cyflwyno'r aseiniad gan ddefnyddio Word, weithiau ceir gwallau fformatio wrth ddileu, lanlwythwch eich gwaith ar ffurf pdf.	***Q*** *Can I use the school's Estyn report as a source.* ***A*** *Yes,* *If you do reference the Estyn report, anonymise it in the same you have with previous assignments – eg 'School X' or redact/block out the name of the school – beware if submitting the assignment using word, there is sometimes formatting errors with redactions, upload your work in pdf format.*
C: Faint o gyfeirnodau dylid eu cynnwys? A: Does dim ateb clir i hwn. Fel 'pa mor hir yw darn o gortyn?' - faint bynnag rydych chi'n credu sydd eu hangen i ateb y diben. Ystyriwch yr adborth ar eich aseiniad diwethaf os ydych chi'n ansicr a ydych chi wedi bod yn defnyddio digon o ffynonellau.	***Q: How many references should be included?*** *A: There is no real answer to this. Like 'how long is a piece of string' - as many as you think you need to do the job. Consider the feedback from your last assignment if you're unsure if you have been using enough sources.*
C: A oes angen i ni gyflwyno rhestr gyfeiriadau ar gyfer y fideo? **A:** OES, defnyddiwch y templed Word awgrymedig ar Moodle. Lluniwch restr gyfeiriadau eich fideo a'i lanlwytho i'r tab o'r enw 'Part 1 Video/Fideo Rhan 1' ar Turnitin. Dylech hefyd ychwanegu sleid derfynol i'ch fideo gyda chyfeiriadau rhan 1.	***Q Do we need to submit a reference list for the video?*** ***A*** *YES, use the suggested word template on Moodle. Compile your video reference list and upload it to the tab entitled 'Part 1 Video/Fideo Rhan 1' on Turnitin. You should also add a final slide to your video with the part 1 references*

C: Sut ydw i'n sicrhau bod dogfennau neu wefannau sy'n enwi'r ysgol yn cael eu gwneud yn ddienw? *A: Os yw'r ysgol yn ymddangos yn enw'r ddogfen, neu fel awdur, newidiwch ef i 'Ysgol X'. Gallwch ddileu'r enw o'r URL neu gynnwys 'Ar gael ar-lein' yn hytrach na rhoi'r URL yn eich rhestr gyfeiriadau.*	***Q: How do I anonymise documents or websites that name the school?*** *A: If the school appears in the name of the document, or as an author change it to 'School X'. You can either remove the name from the URL or just include 'Available online' rather than giving the URL in your reference list.*
C: A oes angen i ni sicrhau bod yr ysgol lleoliad yn ddienw? A: Oes, yn yr un ffordd â'ch aseiniadau blaenorol.	***Q: Do we need to anonymise the placement school?*** *A: Yes please, in the same way as you have for your previous assignments.*
C: Os byddaf yn cyfeirio at astudiaeth achos gyhoeddedig yn fy aseiniad gan ysgol i gefnogi dadl, a oes angen sicrhau bod yr ysgol honno'n ddienw? **A:** Nid oes angen sicrhau bod yr ysgol o'r cyhoeddiad yn ddienw gan mai astudiaeth achos gyhoeddedig ydyw. Rhaid, a dylai, unrhyw drafodaeth am eich ysgol ffocws <u>chi</u> fod yn ddienw.	***Q If I refer to a published case study in my assignment from a school to support anargument, does that school need to be anonymised?*** ***A*** *The school from the publication does not need to be anonymised as it is a published case study, any discussion about <u>your</u> focused school must and should always be anonymized*
C: Oes angen atodiad arnom? Beth ddylem ei gynnwys mewn atodiad? A: Nid yw atodiad yn hanfodol, ond efallai y byddwch am gynnwys un os ydych chi'n cyfeirio at ddogfennau fel y CDY.	***Q: Do we need an appendix? What do we include in an appendix?*** *A: An appendix is not essential, but you may want to include one if you are referring to documents such as the SDP.*

C: Allwn ni ysgrifennu'r adroddiad yn y person cyntaf o gwbl neu a ddylai fod yn y trydydd person? **A:** Fel rheol, rydych yn anelu at y trydydd person gymaint â phosibl. Os ydych yn adfyfyrio ar eich arfer, mae'r person cyntaf yn iawn. Adfyfyrio ar yr ysgol, ceisiwch gadw at y trydydd person os gallwch.	***Q Can we write the report in first person at all or is it meant to be in third?*** ***A*** *As a rule of thumb, you're aiming for as much third person as possible. If you're reflecting on your practice, first is fine. Reflecting on the school, try to keep to third if you can.*
C: Alla i ddefnyddio isdeitlau i rannu fy ngwaith? *A: Gallwch. Gweler y strwythur awgrymedig ar gyfer yr aseiniad yn y canllawiau asesu.*	***Q: Can I use subtitles to divide up my work?*** *A: Yes. Please see suggested assignment structure in the assessment guidance*

C: Gaf i ragor o fanylion ynghylch beth sydd angen ei gynnwys ym mhob adran? *A: Cewch, **edrychwch ar y fideos** sydd wedi'u hychwanegu i Moodle o dan y deilsen 'Gwybodaeth Asesu / Assessment Information'. Darllenwch ganllawiau'r aseiniad.*	***Q: Can I get more details about what needs to go in each section?*** *A: Yes, have **a look at the videos** that have been added to Moodle under the 'Gwybodaeth Asesu / Assessment Information' tile. Read the assignment guidance.*
C: Ble gallaf ddod o hyd i ddeunydd darllen perthnasol? *A: Cewch grynodeb o ddeunydd allweddol cyffredinol o dan y deilsen 'Gwybodaeth am y Modwl' ar Moodle. Hefyd, mae pob un o'r sesiynau a addysgir yn cyfeirio at nifer o ddogfennau polisi ac ymarfer ychwanegol y gallech gyfeirio atynt. Edrychwch yn ôl dros sesiynau sy'n berthnasol i'ch dewis ffocws. Gweler y Llawlyfr Modwl, Wakelet, Padlets a'r rhestr ddarllen.*	***Q: Where do I find relevant readings?*** *A: You can find a summary of overall key readings under the 'Module information' tile on Moodle. Each of the taught sessions also make references to a number of additional policy and practice documents you could refer to. Please look back over sessions that are relevant to your chosen focus. See Module handbook, Wakelet, Padlets and reading list.*